CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth yr 8fed o Fedi 2026 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.
Presennol; Cyng. Miriam Webb, Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Dylan Jarman; a Huw T Jones (Clerc).

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Miriam Webb. Roedd ymddiheuriad gan Cyng Eleri Puw, a Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Orffennaf** ar gynnig Cyng. Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Gwynedd Roberts.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

Adroddwyd y diweddaraf am faterion ers y cyfarfod diwethaf.

b) **Safle treftadaeth/Celf Cyhoeddus** – adroddwyd y gohebiaeth gan Bet Huws 10.08.26 a 25.08.26.

c) **Stryd Tanybryn** – adroddwyd yn llawn am gyfarfod a gynhaliwyd **pnawn Gwener y 4ydd o Fedi am 4yp**, gyda Mabon ap Gwynfor yn bresennol, ynghyd a Adrian Williams a Rhydian Roberts, a rhai o drigolion y pentref. Roedd gwaith ymchwil pellach ar droed, ynghyd a cymorth efo'r ffyrdd o atal dwr I'r tai.

d) **Cynllun trafnidiaeth Cymunedol** – nodwyd nad oedd cofnodion diweddar am y cynllun I law.

d) **Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned** – Nid oedd datblygiad pellach, ac ni chafwyd mwy o wybodaeth gan gwmni GL Jones Bethesda.

e) **Coed i'w torri yn wal yr afon ger Heol y Dwr** – byddai'r Clerc yn cael yr amcangyfrifon erbyn y cyfarfod nesaf.

5. **Materion Cynllunio** Roedd 2 gais wedi ei gylchredeg ers y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn;

NP5/67/T97B – Trosi adeilad storfa goed i greu estyniad i'r anedd presennol – Maes Meriafel, Abergynolwyn - *(Gofynnwyd am atebion erbyn 9fed Awst – nid oedd gwrthwynebiad)*

NP5/67/356 – Dymchwel yr ystafell haul presennol a chodi estyniad unllawr yn y cefn – 5 Tan y Fedw, Abergynolwyn LL36 9YU - *(Gofynnwyd am atebion erbyn 20fed Awst – nid oedd gwrthwynebiad)*.

6. **Materion Cyllid.**

a) **Nodwyd balansau** y cyfrifon o'r datganiadau ar 28.08.26, sef Cyfri cyfredol £10362.87, a cyfri Business Reserve - £16,716.57. Roedd y broses o ychwanegu enwau i arwyddo ar y cyfrif, a'r broses o gael bancio ar-lein yn mynd yn ei flaen.

b) Anfonebau; - ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Gwynedd Roberts cytunwyd i dalu y canlynol;

- Torri gwair maes chwarae Abergynolwyn a mynwent Llanfihangel y Pennant, toriad Awst £680 a toriad Medi £680.
- Cost Archwilio mewnol Cyngor Gwynedd 2025/26 - £360

c) **Ceisiadau am arian**

- Cyfraniad tuag at Trafnidiaeth Gymunedol Tywyn a'r ardal (TAITH) – penderfynwyd eto I drafod y tro nesaf, ac yn y cyfamser, gwneud ymholiadau.
- PTA Ysgol Craig y Deryn – cost cludo plant i nofio – penderfynwyd eto i drafod y tro nesaf.
- Radio Ysbyty Gwynedd – penderfynwyd peidio cyfrannu.
- Eisteddfod Maldwyn Meirion 2027 – penderfynwyd trafod tro nesaf.

7. **Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) -** Roedd ymddiheuriadau gan y Cyng Beth Lawton.
8. **Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.** Nid oedd adroddiad y tro hwn.

a) **Gohebiaeth.**

b) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - roedd e-bost I law gan Aftercare Services ynglyn a claddu llwch diweddar Gareth Evans, a chytunwyd i wasanaeth John Arfon Owen. Hefyd roedd copi o ohebiaeth yng nghyswllt gosod carreg fedd i'r diweddar Robert John Roberts.

c) **Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru,** a byddai'r Clerc y neu dosbarthu i'r Cynghorwyr yn ol yr angen. Nodwyd digwyddiad ar y cyd rhwng Un Llais a'r SLCC ar y 18fed o Dachwedd.

d) **Nodwyd arolwg diwygio bysiau Gogledd Cymru** (danfonwyd y gwybodaeth allan i bawb 31.08.26.)

e) Nodwyd Grantiau '**Perthyn'** i grwpiau Cymunedol (danfonwyd y gwybodaeth allan i bawb 31.08.26)

f) Nodwyd ymgynghoriad yng nghyswllt **rhwydwaith teithio llesol** a oedd wedi ei ddanfon i bawb.

g) Nodwyd wahoddiad i benwythnos **Cynefin a Chymuned Bro Ffestiniog**.

9. Unrhyw fater arall

- Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau i'r Carnifal eleni yn Abergynolwyn.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS FAWRTH 13 Hydref 2026 , 7.00y.h.

...

ROEDD £21.71 a 20USD yn Blwch Mari Jones, a byddai'r Clerc yn bancio.

Minutes of the Council Meeting

Held on **Tuesday, 8 September 2026 at 7.00 pm** at the Ganolfan, Abergynolwyn.
Present: Councillors Miriam Webb, Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones and Dylan Jarman; and Huw T Jones (Clerk).

1. Welcome and declarations of interest

The Chair, Councillor Miriam Webb, extended a warm welcome to everyone.
Apologies were received from Councillor Eleri Puw and Councillor Beth Lawton (Gwynedd Council).
There were no declarations of interest.

2. Presentations by members of the public

It was noted that there had been no requests from members of the public to make presentations on any matter on the Agenda.

3. Minutes of the previous meeting

The minutes of the meeting held on **14 July** were confirmed on the proposal of Councillor Emrys Thompson, seconded by Councillor Gwynedd Roberts.

4. Matters arising

a) Highways/footpaths

An update was provided on matters arising since the previous meeting.

b) Heritage site/Public Art

Correspondence from Bet Huws dated **10 August 2026** and **25 August 2026** was reported.

c) Tanybryn Street

A full report was given on a meeting held on **Friday afternoon, 4 September at 4.00 pm**, attended by Mabon ap Gwynfor, Adrian Williams, Rhydian Roberts and some village residents.
Further research was underway, together with assistance regarding ways of preventing water from reaching the houses.

d) Community Transport Scheme

It was noted that no recent minutes relating to the scheme had been received.

e) Community Councils Support Fund

There had been no further development, and no further information had been received from G L Jones of Bethesda.

f) Trees to be cut down in the river wall near Heol y Dŵr

The Clerk would obtain estimates by the next meeting.

5. Planning matters

Two applications had been circulated since the previous meeting, as follows:

- **NP5/67/T97B** – Conversion of a timber storage building to create an extension to the existing dwelling – Maes Meriafel, Abergynolwyn. *(Responses requested by 9 August – no objection.)*

- **NP5/67/356** – Demolition of the existing conservatory and construction of a single-storey rear extension – 5 Tan y Fedw, Abergynolwyn, LL36 9YU. *(Responses requested by 20 August – no objection.)*

6. Finance matters

a) Bank balances

The balances shown on the statements dated **28 August 2026** were noted:

- Current account: **£10,362.87**
- Business Reserve account: **£16,716.57**

The process of adding authorised signatories to the account, and the process of obtaining online banking, was ongoing.

b) Invoices

On the proposal of Councillor Emrys Thompson, seconded by Councillor Gwynedd Roberts, it was agreed to pay the following:

- Grass cutting at Abergynolwyn playground and Llanfihangel y Pennant cemetery – August cut **£680** and September cut **£680**.
- Gwynedd Council internal audit fee for 2025/26 – **£360**.

c) Requests for funding

- **Contribution towards Community Transport Tywyn and the surrounding area (TAITH)** – it was decided to defer the matter for discussion at the next meeting and, in the meantime, make further enquiries.
- **PTA, Ysgol Craig y Deryn** – cost of transporting children to swimming – it was decided to defer the matter for discussion at the next meeting.
- **Ysbyty Gwynedd Radio** – it was decided not to make a contribution.
- **Eisteddfod Maldwyn Meirion 2027** – it was decided to discuss the matter at the next meeting.

7. Report from Councillor Beth Lawton (Gwynedd Council)

Apologies were received from Councillor Beth Lawton.

8. Report from Councillor Elwyn Evans, representative of One Voice Wales

There was no report on this occasion.

a) Correspondence

Correspondence was noted.

b) Llanfihangel y Pennant cemetery matters

An email had been received from Aftercare Services concerning the recent burial of the ashes of the late Gareth Evans, and it was agreed to use the services of John Arfon Owen.

A copy of correspondence was also received regarding the installation of a gravestone for the late Robert John Roberts.

c) One Voice Wales training

The One Voice Wales training sessions were noted. The Clerk would circulate details to Councillors as appropriate.

A joint event between One Voice Wales and the SLCC on **18 November** was also noted.

d) North Wales Bus Reform consultation

The North Wales Bus Reform survey was noted. The information had been circulated to everyone on **31 August 2026**.

e) 'Perthyn' grants for community groups

The 'Perthyn' grants for community groups were noted. The information had been circulated to everyone on **31 August 2026**.

f) Active Travel Network consultation

A consultation regarding the Active Travel Network was noted; the information had been circulated to everyone.

g) Cynefin a Chymuned Bro Ffestiniog

An invitation to the Cynefin a Chymuned Bro Ffestiniog weekend was noted.

9. Any other business

- Thanks were expressed to everyone for their contributions to this year's **Abergynolwyn Carnival**.

Date of next meeting

The Centre, Abergynolwyn
Tuesday, 13 October 2026 at 7.00 pm